

7.

## CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed GORFFENNAF 2021

### PRESENNOL:

Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

### YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 15ed Mehefin 2021 YN GYWIR.

I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng W R Parry.

Gofynwyd gan rhai o'r Cynghorwyr i gofnodi y rhai oedd ddim yn ymateb.

### MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Cae Chwarae Bodffordd. Codwyd y pwynt gan Cyng E Williams, a fuasai yn bosib rhoi cyfraniad sylweddol tuag at offerau a trin y llawr y rwber. Fel rhoddwyd i'r Neuadd Goffa, Bodwrog i adnewyddu. Mae'r ddau leoliad er budd y Cymunedau.

Cyng E W Roberts yn dweud ei bod yn hanfodol fod y Cyngor yn cefnogi. Mae cymaint o blant yn gwneud defnydd. ar ddeall fod Cyng E Williams wedi anfon i'r un perwyl, ac yn ei gefnogi.

Y Cynghorwyr yn cefnogi y Cae Chwarae. Ond teimlad oedd fod y Cyngor wedi rhoi yn dda drwy drin y ffens, torri glaswellt a rhoi mainc (o gwmpas £3,300) wedi talu £1,000 yn y flwyddyn diwethaf. Bydd y Neuadd Goffa yma flwyddyn nesaf ond nid oes sicrwydd bydd y Cae Chwarae.

Mae Mrs Gaynor Jones wedi dweud wrth y Clerc ei bod yn gorffen a'r Cae Chwarae flwyddyn nesaf, beth wedyn.?

Mae pwyllgor y Cae Chwarae wedi cael cyllideb o £15,432 tuag at atgyweiriadau i'r offer wedi ei gymeradwyo gan Gymdeithas Elusennol Ynys Mon yn eu cyfarfod Gorffennaf 2021. ac yn gobeithio derbyn cymorth ariannol gyda'r Elusen William Bold.

Gofynwyd i'r Clerc anfon gair i Cyng H G Owen i ddiolch am ei wasanaeth i Bwyllgor y Fynwent Gymunedol. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng E Williams.

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. LUP/2021/17. Cais am dystysgrif arfaethedig o'r datblygiad oherwydd bod gwaith sylweddol wedi cychwyn a'r ganiatad 14C245B/VAR er mwyn diogelu'r caniatad hwnnw yn:-  
Fferm Bodwrog, Tynlon.  
Gadael i'r Cyngor Sir wneud penderfyniad. Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng R R Roberts.
2. FPL/2020/128. Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir i ardal ymarfer cwn ynghyd a codi ffens permider 1.8 medr ac man parcio ar dir yn:-  
Trewynne, Bodffordd.  
Gwrthwynebu.  
Teimlad cryf gan y Cyngor fod y fynedfa mewn lle peryglus. Mae gofyn cael agoriad anfarth yma.

Mae cyflymdra y traffig yn wyllt o'r ddwy ochr.  
Beth am blant sydd yn mynd i gerdded y cwn a'i rhieni. Efallai disgyn i faw cwn.  
Hefyd mae Mudiad Meithrin yn agos iawn, sut fuasai pe bai cwn yn dianc ac yn mynd am y plant. Dim yn gweld fod angen datblygiad fel hyn yma, a lle yn y goedwig i gerdded cwn bron yn ymyl. Gwrthod ar bob cyfrif.  
Cynnig Cyng H G Owen, eilo Cyng J E Lewis.

#### PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2020/128. llythyr wedi ei anfon i'r perchennog y tir ar y 21ain Mehefin 2021 yn ei cyngori bod defnyddio y fynedfa fel y mae ar hun o bryd yn groes i'r amodau. Wedi gofyn iddynt rhoi gorau i ddefnyddio'r fynedfa gerbyd newydd i gael mynediad i'r tir yng nghefn y safle nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn unol a'r caniatad cynllunio. Dim wedi derbyn ymateb gan y perchennog.  
Penrhos / Llechwedd, Tynlon.  
Derbyn y wybodaeth.

#### GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi. Rhian Wyn Jones.  
FW. Datganiad: Ynys Mon yn penodi Pennaeth Gwasanaeth Oedolion newydd Arwel Wyn Owen. Enedigol o Llanfachraeth ond bellach yn byw ym Mangor. Addysgwyd yn Ysgol Uwchradd Bodedern a Choleg Prif Ysgol Cymru Bangor. Cychwyn ei rol newydd ym Mis Medi.  
Derbyn y wybodaeth. A dymuno y gorau iddo.
5. Swyddog Polisi. Rhian Wyn Jones.  
FW. Datganiad: Ymchwilio i Ymosodiad Seiber ar Ysgolion Uwchradd. Wedi effeithio ar bob un o'i pump Ysgol Uwchradd. Amlwch, Bodedern, Llangefni, Porthaethwy a Caergybi.  
Derbyn y wybodaeth.
6. Swyddog Polisi. Rhian Wyn Jones.  
FW. Datganiad: Gostyngiad ym Mhrisiau Prydau Ysgolion Cynradd in Elwa Teuluoedd Ynys Mon. O 1af Medi 2021 bydd cost pryd Ysgol Gynradd yn gostwng 30c i £2.20. Contract gwerth £8 miliwn yn gweld y cwmni arbenigol arlwyio Ysgolion yn bwydo dros 9,500 o Ddisgyblion. (Chatwells) Derbyn. Gobeithio fydd rhywfaint o help i rhai teulu.
7. Technegydd Traffig a Pharcio - Nigel Hughes.  
Plat Enw Stryd.  
Cyngor Sir wedi derbyn Cais i gael enw bob pen o'r lon rhwng Gwyndy a Llanerchymedd yn ol y galwr yr enw ydyw "Lon Teilia" Eisiau barn y Cyngor Cymuned.  
Gofynnodd y Clerc am farn y Cynghorwyr Lleol ond nid oedd unrhyw gefnogaeth. Ei adael yn lon Gwyndy (Lle Hanesyddol) Y Technegydd wedi cael yr ymateb a dyna ddiwedd y mater.  
Gofynnodd y Clerc pwy oedd y galwr, ond nid oedd enw ond bod yn byw yn Llangwyllog.  
Rhyffedd iawn fod y Cyngor Sir yn gofyn a dim enw ganddynt.

#### GOHEBIAETH (ARALL)

8. Cyng Hugh Glyn Owen. (Ward Bodwrog)  
Gair i ymddiswyddo fel un o Arolygwyr Mynwent Gymunedol Bodffordd. Rhesymau personol.  
Wedi bod yn arolygwr am 30 mlynedd yr un cyntaf gyda Mr Victor Hughes.  
Bydd rhaid yn awr dewis arolygwr newydd o Bodwrog.

Cafwyd enwebiad fel a ganlyn:-

Cyng J Evans (1) Cyng E D Owen (2) Cyng R R Roberts (5)

Ni ofynwyd i Gofnodi'r Bleidlais.

Cyng Rhys Roberts fydd yn cymryd lle Cyng Glyn Owen fel Arolygwr Mynwent Gymunedol Bodffordd.

Arolygwyr fel a ganlyn:-

Cyng D T Roberts, E W Roberts, R R Roberts a E Williams.

9. Wefan. Atebion Cyfrifaduron Mon.

Pasiwyd i Adnewyddu am y 2 flynedd nesaf 17.21 i 17.23 cyfanswm o £321.00.

Cynnig Cyng E Williams eilio Cyng D T Roberts.

Mae mwy o ymholiadau gan Cyngorau Cymuned Mon am anghenion hygyrchedd y wefan, ond i gael yr adroddiad mae yn rhaid i'r Cyngor dalu £135.00. Nid oedd llawer o symud gan y Cyngorwyr felly rhaid gadael. Cadw mewn golwg a disgwyl os bydd cynnydd neu pheidio.

10. Zurich Municipal. Lucy Tallent.

Y Cyngor yn dewis adnewyddiad tymor hir 5 mlynedd (£541.93 y flwyddyn) achubiaeth o £270.00 dros 5 mlynedd. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng E D Owen.

11. Clercod a Cyngorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.

12. Cyng E W Roberts wedi cael cwyn gan nifer o drigolion Bodffordd sydd yn cerdded bod mynedfa Cae Bach Aur ymlaen fod y gwrych angen sylw, yn cuddio y palmant.

Y Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir i ofyn iddynt gael golwg mor fuan ag sydd bosib.

13. Cyng E Williams llwybr Cae'r Delyn i'r B5025 Bodffordd angen sylw brys. Y Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir.

14. Cyng E Williams mewn cyfarfod o Lywodraethwyr Ysgol Bodffordd yn bryderus am gyflymdra y tramwy (20 mya) neb yn cymryd sylw. A oes modd cael rhywbeth ar y ffordd.?

Cyng J Evans yn dweud na'r merched sydd yn gyrru, ar frys i fynd i'w gwaith. Dylai y 20mya gael ei symyd yn ol. Y Clerc wedi anfon ymlaen i'r Cyngor Sir i edrych a oes ffordd ymlaen.

RHODDION

15. Dim.

PLWYFOL.

16. Garej newydd yn cal ei chodi yn Coedmor, Tynlon. Ni chafwyd cynllun yn ddiweddar. Y Clerc i edrych i fewn.

17. Yr Awditor yn awgrymu y dylid torri y Cyfrif Rhedegol i ddangos arian y Fynwent Gymunedol Bodffordd. Y Clerc wedi gwneud.

MATERION ARIANNOL:

18. Cyfrif Rhedegol £9,848.23.

Mynwent Gymunedol £5,390.00.

TALIADAU:

19. Clerc <sup>500</sup>£250.00, Zurich Municipal. £541.93.

(2 Ff5)

ATEBION CYFRIFADURON MON £321.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.